**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

# Darparu Mannau Diogel i Chwarae a Chymdeithasu: Crynodeb ac Argymhellion Mewn Cymraeg Clir

Tachwedd 2010

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8149
Ffacs: 029 2089 8021
e-bost: Children.&YoungPeopleCommittee@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2010
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

# Darparu Mannau Diogel i Chwarae a Chymdeithasu: Crynodeb ac Argymhellion Mewn Cymraeg Clir

Tachwedd 2010

**Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc**

Rydym yn grŵp o bump Aelod Cynulliad sy'n gweithio yn y Cynulliad Cenedlaethol yng Nghaerdydd. Pobl Cymru sydd wedi pleidleisio drosom i wneud hyn. Ein gwaith ni yw sicrhau bod Llywodraeth Cymru, sef y bobl sy'n gwneud penderfyniadau am bethau a phenderfyniadau am sut i wario arian yn gwneud eu gwaith yn iawn. Enw ein grŵp yw'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc.

**Aelodau'r Pwyllgor**



Helen Mary Jones (Cadeirydd)



Eleanor Burnham



Sandy Mewies



Jonathan Morgan



Joyce Watson

Roedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:



Angela Burns

# Cynnwys

**Geirfa** ..... 5

**Neges gan y Cadeirydd** ..... 6

**Argymhellion y Pwyllgor** ..... 7

**Cyflwyniad** ..... 11

Pam y penderfynodd y Pwyllgor gynnal ymchwiliad i fannau diogel i chwarae a chymdeithasu? ..... 11

Sut y cynhaliodd y Pwyllgor ei ymchwiliad? ..... 12

Materion allweddol sy'n codi o ymchwiliad y Pwyllgor ..... 13

**Pwysigrwydd cynllunio ar gyfer chwarae** ..... 14

Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 ..... 14

Strategaeth Polisi Chwarae a'r Cynllun Cyflawni'r Polisi Chwarae ..... 15

Awdurdodau lleol a chydgysylltu cyfleoedd chwarae ..... 15

Cefnogaeth awdurdodau lleol i gyfleoedd chwarae a gaiff eu harwain gan wirfoddolwyr ..... 16

Effeithiau parhaol Arian Chwarae'r Loteri Fawr ..... 16

**Diogelwch ar y ffyrdd a chynllunio'r ardaloedd rydym yn byw ynddynt** ..... 17

Traffig ..... 17

Parthau cartrefi a phrosiectau addasu strydoedd ar y cyd â thrigolion ..... 17

Cynllunio ar gyfer anghenion pawb yn y gymuned ..... 18

Cytundebau adran 106 ..... 19

Canllawiau a pholisïau cynllunio ..... 20

**Sut mae ofn yn effeithio ar chwarae** ..... 22

Sbwriel a fandaliaeth ..... 22

Iechyd a diogelwch ..... 22

Perygl dieithriaid ..... 23

Stereoteip negyddol o blant a phobl ifanc ..... 24

Bwlio ..... 25

**Trafnidiaeth** .......... **27**
**Anghenion plant a phobl ifanc sydd ag anghenion penodol** .......... **29**
Plant sy'n byw mewn ardaloedd gwledig .......... 29
Plant ag anableddau .......... 29
Plant a phobl ifanc sy'n byw ar aelwydydd difreintiedig .......... 30
Plant Sipsiwn-Teithwyr .......... 31
**Beth y gall ysgolion ei wneud i helpu** .......... **32**
**Tystion** .......... **33**
**Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig** .......... **37**

## Geirfa

- **Cadeirydd:** Cadeirydd y Pwyllgor yw'r Aelod y mae'r Pwyllgor wedi'i ethol i siarad ar ei ran. Ni all wneud penderfyniadau ar ran yr Aelodau eraill na dweud wrth y Pwyllgor beth i'w wneud.
- **Comisiynydd Plant Cymru:** Mae Comisiynydd Plant Cymru yn sefyll i fyny ac yn siarad dros hawliau plant a phobl ifanc. Gall plant a phobl ifanc gysylltu â Chomisiynydd Plant Cymru os oes angen help arnynt gyda mater sy'n effeithio arnynt.
- **Ymchwiliad Pwyllgor:** ymchwiliad i rywbeth. Bydd Ymchwiliad Pwyllgor yn gofyn i arbenigwyr a phobl y mae'r mater yn effeithio arnynt beth yw eu barn hwy a sut y gellir gwella pethau. Yna, bydd y Pwyllgor yn meddwl am yr hyn a ddywedodd pawb wrtho ac yn gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru.
- **Tystiolaeth:** tystiolaeth yw'r hyn mae pobl yn ei ddweud wrth y pwyllgor yn ystod ei ymchwiliad, naill ai drwy ysgrifennu ato, dod i siarad â'r pwyllgor neu drwy ddefnyddio ffyrdd eraill o gyfathrebu.
- **Canllawiau:** cyngor y dylid ei ddilyn.
- **Awdurdod lleol:** cyngor lleol a gaiff ei arwain gan grŵp o gynghorwyr sydd wedi cael eu hethol i wneud penderfyniadau am sut i wario arian yn yr ardal leol.
- **Llywodraeth leol:** dyma sut mae cyfeirio at yr holl awdurdodau lleol fel grŵp.
- **Y Cyfryngau:** Papurau newydd, y teledu, radio, y rhyngrwyd a ffyrdd eraill o gyfathrebu torfol.
- **Argymhelliad:** awgrym cryf y dylai rhywbeth gael ei wneud.
- **Canllawiau Statudol:** cyngor sy'n esbonio sut i wneud rhywbeth mewn ffordd sy'n dilyn y gyfraith.
- **Llywodraeth Cymru:** Llywodraeth Cymru sy'n gwneud ac yn cynnal polisi ac sy'n cael ei dal yn gyfrifol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Caiff ei harwain gan Weinidogion sydd hefyd yn Aelodau Cynulliad.

## Neges gan y Cadeirydd

Mae chwarae yn rhan bwysig iawn o blentyndod. Drwy chwarae a threulio amser gyda ffrindiau, mae plant a phobl ifanc yn dysgu pethau newydd amdanynt eu hunain, am eraill ac am y byd o'u cwmpas. Maent hefyd yn cael cyfle i roi cynnig ar bethau newydd a chanfod beth maent yn ei wneud yn dda a beth maent yn mwynhau ei wneud.

Fel cymdeithas, rhaid i ni wneud y cyfan y gallwn i ganiatáu i blant a phobl ifanc gael y lle a'r amser sydd ei angen arnynt i chwarae. Dylem hefyd roi cyfleoedd i blant a phobl ifanc roi cynnig ar bethau newydd.

Mae'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn falch iawn bod dros 2,700 o blant a phobl ifanc wedi dweud wrthym beth sy'n bwysig iddynt hwy yn ystod y prosiect 'Chdi sy'n bwysig' a gafodd ei gynnal gennym yn ystod Haf 2009. Oherwydd yr hyn ddywedodd y plant a'r bobl ifanc hynny wrthym, dechreuodd ein hymchwiliad i fannau diogel i chwarae a chymdeithasu ym mis Rhagfyr 2009.

Canlyniad yr ymchwiliad hwnnw yw'r adroddiad hwn, a'r 26 o argymhellion a wnawn ynddo. Rydym yn gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn meddwl yn ofalus am yr argymhellion a wnawn ac rydym yn gofyn iddynt adael i ni wybod sut y byddant yn cyflawni'r newidiadau rydym wedi'u hawgrymu fel y gall mwy o blant a phobl ifanc yng Nghymru chwarae, cymdeithasu â'u ffrindiau a mwynhau eu hamser rhydd.

Diolch i'r holl blant a'r bobl ifanc, y sefydliadau a'r unigolion a roddodd eu hamser i siarad â'r Pwyllgor neu i ysgrifennu ato i drafod y mater pwysig hwn. Rydym yn ddiolchgar iawn i chi.

Helen Mary Jones AC
Cadeirydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

## Argymhellion y Pwyllgor

Rhestrir argymhellion y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru isod, yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr Adroddiad hwn. Gweler y tudalennau perthnasol yn yr adroddiad am y dystiolaeth gefnogol a'r casgliadau:

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywdraeth Cymru yn egluro wrth awdurdodau lleol beth yw ystyr 'chwarae' a faint yw 'digon' o chwarae. Dylai wneud hyn cyn gynted â phosibl. (Tudalen 14)

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru edrych ar pa bethau a restrir yn y Cynllun Cyflawni'r Polisi Chwarae sydd yn aros i gael eu gwneud. Dylai Llywodraeth Cymru ofyn i sefydliadau sydd â diddordeb eu helpu i wneud hyn cyn mis Ebrill 2011. (Tudalen 15)

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi arweiniad i awdurdodau lleol sy'n dweud pa mor bwysig yw'r Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc. Dylai'r arweiniad ddweud hefyd bod yn rhaid i holl adrannau awdurdodau lleol ddangos sut maent yn rhan o'r Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc. (Tudalen 16)

**Argymhelliad 4.** Am fod tystiolaeth yn dangos bod plant mewn ardaloedd tlotach yn llawer mwy tebygol o gael eu hanafu neu eu lladd ar y ffyrdd na phlant eraill, mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ganolbwyntio ar leihau'r achosion o anafiadau i blant mewn ardaloedd tlotach. (Tudalen 17)

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod diogelwch ar y ffordd yn cael ei addysgu mewn ysgolion yng Nghymru. (Tudalen 17)

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod pob partneriaeth Plant a Phobl ifanc yn gofyn i blant a phobl ifanc am eu barn, yn arbennig yn ystod y broses gynllunio. Dylai adrannau cynllunio feddwl am bethau y gallant eu gwneud i sichrau y gall plant a phobl ifanc ddweud lle maent am i gyfleusterau chwarae gael eu thoi. Dylai'r Uned Gefnogi'r Bartneriaeth, sy'n cynorthwyo'r Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc i wneud eu gwaith, roi gwybod i'r holl Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc pan fydd un wedi canfod ffordd dda o gael plant a phobl ifanc i gymryd rhan yn y broses gynllunio. (Tudalen 18)

**Argymhelliad 7.** Dylai canllawiau a roddir gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol am y Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, gynnwys canllaw arfer da ar ymgynghori â phlant a phobl ifanc. Wrth ymgynghori â phlant a phobl ifanc, dylai'r canllaw ddweud y dylent gael yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt i feddwl am y materion da sylw, gan gynnwys faint o arian sydd ar gael i'w wario ar faterion penodol. (Tudalen 18)

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi canllawiau statudol i lywodraeth leol sy'n nodi y dylid ymgynghori â phlant a phobl ifanc ar benderfyniadau a gaiff eu gwneud mewn llawer o adrannau awdurdodau lleol, fel addysg, tai, trafnidiaeth a chynllunio. Dylai'r canllawiau statudol hefyd nodi y dylai awdurdodau lleol weithio gyda phlant a phobl ifanc i'w helpu i ddeall y materion a'r ffordd orau o fynegi eu barn amdanynt. (Tudalen 19)

**Argymhelliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru egluro wrth gynllunwyr bod yn rhaid iddynt ddefnyddio canllawiau a elwir yn 'manual for streets' gan fod y canllawiau'n dweud y dylai ardaloedd fod yn well i blant a phobl ifanc allu chwarae. (Tudalen 20)

**Argymhelliad 10.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod awdurdodau lleol yn gadael y goleuadau heb eu diffodd ger mannau chwarae, a'r strydoedd y bydd pobl yn eu defnyddio i gerdded yno. Mae'r Pwyllgor yn argymell, hefyd, y caiff goleuadau eu cynnwys mewn cynlluniau ar gyfer unrhyw fannau chwarae newydd. (Tudalen 21)

**Argymhelliad 11.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod awdurdodau lleol yn siarad â phlant a phobl ifanc i geisio canfod lle mae'r problemau gwaethaf o ran annibendod a diffyg atgyweirio. Yna, dylai awdurdodau lleol lanhau ac atgyweirio'r mannau hynny. (Tudalen 22)

**Argymhelliad 12.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda darparwyr chwarae, plant a phobl ifanc a phobl eraill sydd â diddordeb i ysgrifennu canllawiau iechyd a diogelwch a fydd yn annog chwarae anturus. (Tudalen 22)

**Argymhelliad 13.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag eraill i feddwl a fyddai'n ddefnyddiol cynnal ymgyrch i helpu plant a'u rhieni ddysgu sut i gadw'n ddiogel heb fod ag ofn mynd allan. (Tudalen 23)

**Argymhelliad 14.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau y dylai gwaith rhwng cenedlaethau ystyried barn pobl ifanc yn ogystal ag oedolion. (Tudalen 23)

**Argymhelliad 15.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnwys gwaith rhwng cenedlaethau yn y cwricwlwm ysgol er mwyn sicrhau bod pobl hŷn a phobl iau yn gweithio gyda'i gilydd mewn ffordd gadarnhaol. (Tudalen 25)

**Argymhelliad 16.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal pedwar digwyddiad ar gyfer y cyfryngau mewn gwahanol rannau o Gymru er mwyn helpu'r cyfryngau i ddeall plant a phobl ifanc yn well ac esbonio pam y gall hanesion negyddol amdanynt beri trafferth i'r holl gymuned. Hefyd, dylai Llwyodraeth Cymru ofyn i Lywodraeth y DU wneud hyn ledled y DU. (Tudalen 25)

**Argymhelliad 17.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn edrych ar yr hyn y gellir ei wneud i sicrhau bod llai o fwlio yn digwydd y tu allan i'r ysgol. Dylai Llywodraeth Cymru feddwl yn benodol am yr hyn y gall ei wneud i helpu plant anabl a phobl ifanc a gaiff eu bwlio. Mae'r Pwyllgor hefyd yn gofyn i Lywodraeth Cymru ddweud pryd y caiff ei chanllaw gwrth-fwlio ei gyhoeddi, gan fod disgwyl iddo gael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2009. (Tudalen 26)

**Argymhelliad 18.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi arweiniad i awdurdodau lleol yn gofyn iddynt ddarparu cyfleoedd chwarae dan oruchwyliaeth i blant a phobl ifanc mewn gwahanol ffyrdd. Hefyd, dylai Llywodreth Cymru feddwl am y ffordd orau o hyfforddi gweithwyr chwarae fel nad ydynt yn ansicr wrth atal bwlio. (Tudalen 26)

**Argymhelliad 19.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod lleihau costau teithio i bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed yng Nghymru yn flaenoriaeth er mwyn helpu pobl ifanc i gyrraedd digwyddiadau hamdden yn ogystal â chyfleoedd addysg a hyfforddiant. (Tudalen 27)

**Argymhelliad 20.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai anghenion plant a phobl ifanc gael eu hystyried, yn ogystal ag anghenion pobl eraill, wrth feddwl am y system drafnidiaeth gyhoeddus. Os yw'r ystyriaethau hynny yn dangos bod mwy o broblemau gyda'r system, dylai Llywodraeth Cymru wneud cymaint ag y gall i ddatrys y problemau hynny. (Tudalen 27)

**Argymhelliad 21.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi arweiniad i awdurdodau lleol sy'n dweud na ddylai plant orfod methu gweithgareddau ar ôl ysgol am eu bod yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. (Tudalen 28)

**Argymhelliad 22.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodreth Cymru yn sicrhau bod lleoliadau chwarae prif ffrwd yn hygyrch i bob plentyn a pherson ifanc, a bod cyfleoedd chwarae arbenigol ar gael i blant anabl sydd am eu defnyddio. Wrth ystyried anghenion gofalwyr plant a phobl ifanc anabl, dylid ystyried cymorth hefyd i'r gofalwr deimlo'n hyderus wrth adael i'r plenty neu'r person ifanc roi cynnig ar bethau newydd drwy chwarae. (Tudalen 30)

**Argymhelliad 23.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i sicrhau bod pob adeilad cyhoeddus newydd yng Nghymru yn hollol hygyrch. Dylid gwella mynediad i adeiladau hŷn lle a phan mae hynny'n bosibl. (Tudalen 30)

**Argymhelliad 24.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod polisïau prisio llywodraeth leol yn cael eu newid fel y gall cyfleoedd chwarae a hamdden gael eu darparu am ddim pan fydd hynny'n bosibl. Lle mae angen talu, dylai tocynnau teulu fod ar gael ar gyfer y nifer gwahanol o oedolion a phlant yn y teulu hwnnw. (Tudalen 31)

**Argymhelliad 25.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried anghenion plant a phobl ifanc Sipsiwn-Teithwyr. Dylai plant a phobl ifanc Sipsiwn-Teithwyr, a'u rhieni, gymryd rhan yn y penderfyniadau am wneud cynllun datblygu chwarae. Dylai canllawiau cynllunio ar gyfer safleoedd Sipsiwn-Teithwyr sicrhau bod cyfleoedd chwarae yn cael eu cynnwys ar bob safle. (Tudalen 31)

**Argymhelliad 26.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru adolygu yr hyn y gall ysgolion a gaiff eu cynnal ei wneud i gefnogi mannau diogel i chwarae a chymdeithasu. Dylai'r adolygiad gynnwys yr holl faterion y mae angen eu hystyried os oes disgwyl i ysgolion rannu cyfleusterau lle bynnag y mae hynny'n bosibl.
(Tudalen 32)


# Cyflwyniad

**Pam y penderfynodd y Pwyllgor gynnal ymchwiliad i fannau diogel i chwarae a chymdeithasu?**


1. Mae'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn credu ei bod yn bwysig iawn gwrando ar farn plant a phobl ifanc, felly yn ystod haf 2009, gofynnwyd i lawer o blant a phobl ifanc pa bethau roeddynt yn credu y dylai ymchwiliadau'r Pwyllgor feddwl amdanynt yn y dyfodol.

2. Cysylltodd dros 2,700 o blant a phobl ifanc â ni i ddweud eu barn. Edrychwyd ar restr o bynciau ac yna aethant ati i lenwi ffurflen bleidleisio i ddweud pa bethau roeddynt yn teimlo y dylai'r Pwyllgor edrych arnynt. Roedd yn bosibl iddynt ddweud hefyd a oedd unrhyw pethau eraill, nad oedd ar y rhestr, yn peri pryder iddynt.

3. Dyma ganlyniad au'r bleidlais:



## Materion ychwanegol a gyflwynwyd gan blant a phobl ifanc




4. Y tri pheth oedd yn peri'r pryder mwyaf i blant a phobl ifanc oedd:

- -yr amgylchedd;
- -mannau diogel i chwarae a chymdeithasu; a
- -pryderon ariannol.

5. Oherwydd y bleidlais, ysgrifennodd y Pwyllgor at bwyllgorau eraill y Cynulliad i ofyn iddynt ystyried pryderon pobl ifanc am yr amgylchedd a'u pryderon ariannol. Yna, penderfynodd y Pwyllgor gynnal ymchwiliad i fannau diogel i chwarae a chymdeithasu.

**Sut y cynhaliodd y Pwyllgor ei ymchwiliad?**

6. Dechreuodd y Pwyllgor yr ymchwiliad ym mis Rhagfyr 2009.

7. Siaradodd y Pwyllgor â rhai plant a phobl ifanc a gofynnodd i eraill lenwi holiadur am yr hyn oedd yn gwneud iddynt deimlo'n ddiogel, a'r hyn oedd yn gwneud iddynt deimlo'n llai diogel, wrth chwarae.

8. Cynhaliwyd gweithdy gyda phlant anabl, gofalwyr ifanc, plant sy'n ceisio lloches ac eraill yn y Gogledd.

9. Aeth yr aelodau i weld rhai mannau chwarae ac ar ymweliad ag ysgolion i siarad â phlant ac oedolion sy'n eu helpu i chwarae'n ddiogel.

10. Anfonodd rhai plant a phobl ifanc ddarnau o ffilm atom er mwyn ein helpu i ddeall beth sy'n gwneud iddynt deimlo'n ddiogel. Gwnaeth rhai eraill luniau a'u hanfon atom.

11. Gofynnwyd i sefydliadau ac unigolion sydd â diddordeb yn hyn i ysgrifennu atom a dweud wrthym sut yr oeddynt yn credu y byddai'n bosibl i ni helpu i sicrhau bod gan blant a phobl ifanc fannau diogel i chwarae a chymdeithasu.

12. Yna, gofynnwyd i rai o'r sefydliadau ddod i'r Senedd yng Nghaerdydd i siarad â ni mewn cyfarfod o'r Pwyllgor i drafod y materion.

13. Hoffem ddiolch i'r bobl wnaeth ein helpu gyda'r ymchwiliad hwn. Rydym yn ddiolchgar iddynt am eu hamser a'u diddordeb.

**Materion allweddol sy'n codi o ymchwiliad y Pwyllgor**

14. Cytunodd y tystion ei bod yn bwysig iawn bod plant a phobl ifanc yn gallu chwarae a gwneud digon o'r gwahanol weithgareddau hamdden y maent am eu gwneud.

15. Daeth 6 phrif fater yn amlwg o dystiolaeth yr ymchwilaid hwn:

- -pwysigrwydd cynllunio ar gyfer chwarae
- -diogelwch ar y ffyrdd a chynllunio'r ardaloedd lle rydym yn byw ynddynt
- -sut mae ofn yn effeithio ar chwarae
- -trafnidiaeth
- -anghenion plant a phobl ifanc sydd ag anghenion penodol
- -beth y gall ysgolion ei wneud i helpu.

## Pwysigrwydd cynllunio ar gyfer chwarae

### Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010

16. Mae Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn gyfraith ar gyfer Cymru sydd, ymysg pethau eraill, yn gwneud i awdurdodau lleol feddwl am gynllunio ar gyfer chwarae mewn ffordd newydd.

17. Oherwydd y Mesur, rhaid i awdurdodau lleol edrych ar bob cyfle sydd gan blant a phobl ifanc i chware yn yr ardal leol, a gwneud yn siwr bod gan bob plentyn a pherson ifanc ddigon o gyfleoedd i chwarae.

18. Mae'r Mesur hefyd yn dweud bod angen i awdurdodau lleol feddwl am yr hyn y gallai plant a phobl ifanc anabl fod ei angen er mwyn eu helpu hwythau hefyd i fwynhau cyfleoedd chwarae.

19. Dywedodd Llwyodraeth Cymru wrth y Pwyllgor ei fod yn credu fod chwarae yn bwysig iawn, ond dywedodd rhai tystion wrth y Pwyllgor fod rhai awdurdodau lleol yn credu fod chwarae yn llai pwysig na materion eraill.

20. Dywedodd Llywodraeth Cymru y bydd yn sicrhau bod awdurdodau lleol yn sylweddoli pa mor bwysig yw cynllunio ar gyfer chwarae, ac yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael digon o gyfleoedd i chwarae. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wrth y Pwyllgor fod awdurdodau lleol yn fodlon gwneud yr hyn roedd Llywodraeth Cymru wedi gofyn iddynt eu gwneud, ond nad oedd Llywodreth Cymru wedi egluro beth oedd ystyr 'chwarae' a faint oedd 'digon' o chwarae.

21. Er bod rhai plant a phobl ifanc yn fodlon chwarae heb oedolion o gwmpas, dywedodd rhai tystion ei bod yn bwysig deall bod yn well gan rai eraill gael oedolion i ofalu amdanynt neu gynnal gweithgareddau ar eu cyfer. Mae'r Pwyllgor yn credu ei bod yn bwysig i unrhyw ddiffiniad o chwarae gynnwys chwarae a gaiff ei arwain gan y plentyn a chwarae a gaiff ei arwain gan oedolion.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywdraeth Cymru yn egluro wrth awdurdodau lleol beth yw ystyr 'chwarae' a faint yw 'digon' o chwarae. Dylai wneud hyn cyn gynted â phosibl.**

## Strategaeth Polisi Chwarae a'r Cynllun Cyflawni'r Polisi Chwarae

22. Mae'r 'Strategaeth Polisi Chwarae' yn ddogfen ysgrifenedig sy'n nodi cynlluniau Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod gan blant a phobl ifanc Cymru ddigon o gyfleoedd i chwarae. Mae'r 'Cynllun Cyflawni'r Polisi Chwarae' yn nodi beth y mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ei wneud er mwyn gweithredu'r cynlluniau hynny.

23. Mae'r Strategaeth Polisi Chwarae yn seiliedig ar Gonfensiwn y Cenehedloedd Unedig ar hawliau'r Plentyn (y Confensiwn) sy'n nodi bod gan blant hawl, ymysg pethau eraill, i amser rhydd a'r hawl i chwarae. Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno bod hawliau gan plant a phobl ifanc, ac mae'n bwriadu meddwl am sut mae ei chynlluniau a'i gweithredoedd yn effeithio ar yr hawliau sydd gan blant, yn ôl y Confensiwn.

24. Dywedodd rhai tystion wrthym eu bod yn credu fod Llywodraeth Cymru yn gywir i ddweud bod hawliau gan blant a phobl ifanc, a'i bod yn dda i gael cynlluniau i sicrhau bod gan blant a phobl ifanc ddigon o gyfleoedd i chwarae. Dywedodd rhai tystion eu bod yn credu nad oedd rhai o'r pethau a restrir yn y Cynllun Cyflawni'r Polisi Chwarae wedi digwydd.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru edrych ar pa bethau a restrir yn y Cynllun Cyflawni'r Polisi Chwarae sydd yn aros i gael eu gwneud. Dylai Llywodraeth Cymru ofyn i sefydliadau sydd â diddordeb eu helpu i wneud hyn cyn mis Ebrill 2011.**

## Awdurdodau lleol a chydgysylltu cyfleoedd chwarae

25. Dywedodd rhai tystion nad oedd rhai awdurdodau lleol yn gwneud yn dda iawn o ran cynllunio sut i ddarparu cyfleoedd i chwarae, a nad oedd pobl yn gweithio mewn gwahanol adrannau bob amser yn ystyried y ffordd orau o weithio gydag adrannau eraill. Gallai hynny olygu bod un adran yn bwriadu adeiladu parc sglefrio ac adran arall yn bwriadu newid llwybrau bysiau, ac y byddai hynny yn ei gwneud yn anodd i bobl ifanc gyrraedd y parc newydd.

26. Dywedodd rhai tystion wrth y Pwyllgor y byddai'n haws i bob adran ddeall pam ei bod yn bwysig cael bws a fyddai'n mynd heibio'r parc sglefrio neu le diogel i groesi'r ffordd wrth ganolfan hamdden, er enghraifft, pe bai raid i bob adran wrando ar farn plant a phobl ifanc.

27. Mae gan bob awdurdod lleol 'Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc', a dylai rhywun o bob adran o'r awdurdod lleol fod yn aelod ohoni. Mae'r

bartneriaeth yn helpu pob adran i feddwl sut mae popeth y mae'n ei wneud yn effeithio ar blant a phobl ifanc. Dylai'r partneriaethau hyn weithio gyda'i gilydd er mwyn plant a phobl ifanc, ond dim ond os yw pob adran yn deall pa mor bwysig yw'r partneriaethau hyn a gwneud iddynt weithio'n dda y byddant yn gallu gwneud hyn.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi arweiniad i awdurdodau lleol sy'n dweud pa mor bwysig yw'r Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc. Dylai'r arweiniad ddweud hefyd bod yn rhaid i holl adrannau awdurdodau lleol ddangos sut maent yn rhan o'r Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc.**

### Cefnogaeth awdurdodau lleol i gyfleoedd chwarae a gaiff eu harwain gan wirfoddolwyr

28. Dywedodd rhai tystion nad oedd awdurdodau lleol bob amser yn gweithio'n dda i gefnogi ymdrechion gwirfoddolwyr a oedd yn darparu cyfleoedd i chwarae.

29. Mae Clwb Ieuenctid Iwth Pen yn Nyffryn Nantlle yn cael ei redeg gan wirfoddolwyr. Dywedwyd wrth y Pwyllgor eu bod yn cael trafferthion gan fod cymaint o bobl ifanc am ymuno, felly roedd yn rhaid talu i glwb Ieuenctid yr awdurdod lleol adael i rai o'r bobl ifanc fynd i'r clwb hwnnw yn lle eu clwb hwy. Nid oedd hyn yn ymddangos yn deg iawn i'r clwb ieuenctid ac mae'r Pwyllgor yn gobeithio y gall yr awdurdod lleol ddod o hyd i ffordd well o gefnogi clwb ieuenctid Iwth Pen, a chlybiau eraill tebyg.

30. Rhoddir arian fel grantiau ariannol i rai cyfleoedd chwarae a gaiff eu rhedeg gan wirfoddolwyr. Dywedodd staff Maes Chwarae Antur y Rhyl wrth y Pwyllgor y byddai cael grant bob tair blynyedd yn hytrach na bob blwyddyn yn eu helpu hwy i gynllunio'n well.

### Effeithiau parhaol Arian Chwarae'r Loteri Fawr

31. Mae'r Loteri Fawr yn elusen sy'n talu am lawer o gyfleoedd chwarae yng Nghymru a'r DU.

32. Mae'r Pwyllgor yn credu ei bod yn bwysig sicrhau y gall y cyfleoedd chwarae a gaiff eu talu amdanynt gan y Loteri Fawr barhau ar ôl i'r Loteri Fawr roi'r gorau i dalu amdanynt.

33. Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu grŵp llywio cenedlaethol a fydd yn ceisio sicrhau bod cyfleoedd i chwarae yn parhau. Hoffai'r Pwyllgor weld rhestr o'r pethau y gofynnwyd i'r grŵp eu gwneud.

## Diogelwch ar y ffyrdd a chynllunio'r ardaloedd rydym yn byw ynddynt

### Traffig

34. Dylai mannau cyheoddus fod ar gael i bawb eu defnyddio, ond mae tystiolaeth yn dangos bod angehnion ceir a gyrrwyr yn aml yn cael eu hystyried yn fwy pwysig nag anghenion plant a cherddwyr.

35. Dywedodd plant a phobl ifanc wrth y Pwyllgor nad oedd bob amser yn bosibl iddynt fynd allan i chwarae gan fod ceir wedi'u parcio yn y mannau lle roeddynt am chwarae a bod y traffig yn golygu nad oedd yn ddiogel.

36. Er bod y rhan fwyaf o blant yn fwy diogel nawr nag erioed o'r blaen, dywedodd Dirprwy Weinidog dros Blant Llywodraeth Cymru, bod plentyn sy'n byw mewn ardal dlotach yn llawer mwy tebygol o gael ei anafu neu ei ladd ar y ffordd, na phlant sy'n byw mewn ardaloedd eraill.

37. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn gorff sy'n cynrychioli awdurdodau lleol yng Nghymru a dywedodd wrth y Pwyllgor y gellir gwneud mwy i sicrhau bod gan blant a phobl ifanc y sgiliau sydd eu hangen arnynt i fod yn ddiogel wrth ochr y ffordd.

**Am fod tystiolaeth yn dangos bod plant mewn ardaloedd tlotach yn llawer mwy tebygol o gael eu hanafu neu eu lladd ar y ffyrdd na phlant eraill, mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ganolbwyntio ar leihau'r achosion o anafiadau i blant mewn ardaloedd tlotach.**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod diogelwch ar y ffordd yn cael ei addysgu mewn ysgolion yng Nghymru.**

### Parthau cartrefi a phrosiectau addasu strydoedd ar y cyd â thrigolion

38. Dywedodd tystion wrth y Pwyllgor fod ceir wedi parcio yn ei gwneud yn anodd i blant chwarae ar y stryd.

39. Parthau cartrefi yw ardaloedd lle mae strydoedd wedi cael eu cynllunio i ganiatau i blant chware y tu allan, ac mae cerddwyr yn rhannu'r ardal hon â cheir yn well. Mae Prosiectau addasu strydoedd ar y cyd â thrigolion yn debyg i barthau cartrefi.

40. Er bod parthau cartrefi a phrosiectau addasu strydoedd ar y cyd â thrigolion yn syniad da, gall hyn beri trefferth i rai pobl sydd ag anghenion penodol ac maent yn gostus.

41. Mae Cynllun Cyflawni'r Polisi Chwarae, Llwyodraeth Cymru, yn annog y defnydd o barthau cartrefi, a ffyrdd eraill o helpu plant i chwarae ar y strydoedd ger eu cartrefi os ydynt yn dewis.

**Cynllunio ar gyfer anghenion pawb yn y gymuned**

42. Pe bai strydoedd yn cael eu cynllunio o'r dechrau gan ystyried chwarae ar gyfer plant, ni fyddai angen parthau cartrefi drud. Dywedodd tystion wrthym ei bod yn ymddangos fel pe bai cynllunwyr sy'n dylunio strydoedd yn ystyried anghenion oedolion yn fwy nag anghenion plant.

43. Mae'r Pwyllgor yn teimlo y dylai awdurdodau lleol ofyn i blant a phobl ifanc beth sydd ei angen yn eu hardaleodd hwy, a lle y dylai llefydd fel parciau chwarae a pharciau sglefrio gael eu gosod.

44. Gan nad yw adrannau awdurdodau lleol bob amser yn gweithio'n dda gyda'i gilydd, dywedodd y Loteri Fawr wrth y Pwyllgor nad yw pob adran yn ystyried beth fyddai ei angen ar blant.

45. Gan fod gan bob awdurdod lleol Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc y dylai pob adran fod yn rhan ohoni, mae'r Pwyllgor yn credu y dylai'r partneriaethau fod yn ymgynghori â phlant a phobl ifanc i gael gwybod beth yw eu barn hwy.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod pob partneriaeth Plant a Phobl ifanc yn gofyn i blant a phobl ifanc am eu barn, yn arbennig yn ystod y broses gynllunio. Dylai adrannau cynllunio feddwl am bethau y gallant eu gwneud i sichrau y gall plant a phobl ifanc ddweud lle maent am i gyfleusterau chwarae gael eu thoi. Dylai'r Uned Gefnogi'r Bartneriaeth, sy'n cynorthwyo'r Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc i wneud eu gwaith, roi gwybod i'r holl Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc pan fydd un wedi canfod ffordd dda o gael plant a phobl ifanc i gymryd rhan yn y broses gynllunio.**

**Dylai canllawiau a roddir gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol am y Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, gynnwys canllaw arfer da ar ymgynghori â phlant a phobl ifanc. Wrth ymgynghori â phlant a phobl ifanc, dylai'r canllaw ddweud y dylent gael yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt i feddwl am y**

**materion da sylw, gan gynnwys faint o arian sydd ar gael i'w wario ar faterion penodol.**

46. Dywedodd rhai o'r tystion wrth y Pwyllgor mai yr un plant a phobl ifanc fydd yn cael cyfle i fynegi barn pan fydd awdurdodau lleol yn chwilio am farn plant a phobl ifanc.

47. Mae'r Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn dweud fod yn rhaid i awdurdodau lleol wneud trefniadau i ddweud wrth blant a phobl ifanc sut i gymryd rhan mewn penderfyniadau, a'u helpu i gymryd rhan os ydynt yn dymuno. Oherwydd hyn, ni ddylai awdurdodau lleol barhau i ymgynghori â'r un plant a phobl ifanc y maent wedi cysylltu â hwy eisoes, a dylent gynnwys eraill hefyd.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi canllawiau statudol i lywodraeth leol sy'n nodi y dylid ymgynghori â phlant a phobl ifanc ar benderfyniadau a gaiff eu gwneud mewn llawer o adrannau awdurdodau lleol, fel addysg, tai, trafnidiaeth a chynllunio. Dylai'r canllawiau statudol hefyd nodi y dylai awdurdodau lleol weithio gyda phlant a phobl ifanc i'w helpu i ddeall y materion a'r ffordd orau o fynegi eu barn amdanynt.**

## Cytundebau adran 106

48. Mae cytundeb adran 106 yn gytundeb a allai gael ei gwneud rhwng awdurdod lleol a datblygwr sydd wedi prynu tir i adeiladu tai, siopa neu unrhyw beth arall. Mae'r cytundeb yn nodi y bydd y person neu'r cwmni sydd wedi prynu'r tir – y datblygwr – yn rhoi arian i'r awdurdod lleol i dalu am wasanaethau neu am bethau i bobl yn yr ardal. Gallai'r rhain fod yn ffyrdd newydd, tai fforddiadwy neu barc, er enghraifft.

49. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wrth y Pwyllgor nad oedd llawer o gytundebau 106 wedi cael eu gwneud yn ystod y 18 mis diwethaf gan fod llai o arian gan bobl erbyn hyn. Dywedodd hefyd bod llai o gytundebau adran 106 wedi cael eu gwneud oherwydd y tâl newydd y gall awdurdodau lleol ei ofyn i ddatblygwyr ei dalu, sef Ardoll Isadeiledd Cymunedol.

50. Roedd y Pwyllgor yn deall efallai y bydd llai o gytundebau adran 106 yn y dyfodol. Ond roedd hefyd yn teimlo y dylai unrhyw awdurdodau lleol sydd â chytundebau adran 106 ofyn i'w Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc feddwl sut y gallai'r cytundeb helpu plant a phobl ifanc i gael mannau diogel i chwarae a chymdeithasu.

51. Mae'r Pwyllgor yn credu hefyd y dylai parciau a delir amdanynt gan gytundebau adran 106 gael eu hadeiladu ar ystadau tai newydd cyn i bobl ddechrau prynu'r tai. Felly, bydd teuluoedd sydd â phlant yn gallu prynu tai yn nes at y parc a'r bobl sydd am fyw ymhellach oddi wrtho brynu tai ymhellach i ffwrdd.

**Canllawiau a pholisïau cynllunio**

52. Mae Sustrans yn elusen sy'n helpu pobl i deithio mewn ffordd sy'n ystyriol o'r amgylchedd, a dywedodd wrth y Pwyllgor nad yw rhai cynllunwyr ffyrdd yn dilyn y cyngor diweddaraf o ran yr hyn y dylent fod yn ei gynnwys mewn ardaloedd sy'n cael eu hadeiladu o'r newydd. Roedd Sustrans yn teimlo fod barn oedolion yn cael ei hystyried yn gyntaf weithiau, ac nad oedd anghenion plant yn gael eu hystyried nes y bydd y cynlluniau wedi cael eu gwneud.

53. Dywedodd Cymdeithas Chwarae Gogledd-ddwyrain Cymru na ddylai plant a phobl ifanc sy'n chwarae neu'n cymdeithasu gael eu gwahanu o fywyd gweddill y gymuned, ac roedd y Pwyllgor yn cytuno. Roedd o'r farn y dylai plant a phobl ifanc allu chwarae ar y stryd y tu allan i'w cartrefi ac yn eu cymunedau lleol

**Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru egluro wrth gynllunwyr bod yn rhaid iddynt ddefnyddio canllawiau a elwir yn 'manual for streets' gan fod y canllawiau'n dweud y dylai ardaloedd fod yn well i blant a phobl ifanc allu chwarae.**

54. Er y dylai plant a phobl ifanc allu chwarae ar y strydoedd y tu allan i'w cartrefi ac yn eu cymunedau lleol, dylent hefyd gael mannau chwarae a pharciau y gallant fynd iddynt.

55. Dywedodd plant a phobl ifanc wrth y Pwyllgor na allant, weithiau, fynd i'w parciau lleol a mannau chwarae am fod pobl eraill yn dweud wrthynt i adael oherwydd eu hoedran.

56. Roedd y Pwyllgor yn teimlo fod angen ardaloedd gwahanol mewn parciau gyda gwahanol bethau ynddynt. Efallai y byddai llithrenni ar gyfer plant bach, fframiau dringo ar gyfer plant hŷn a chysgodfeydd i bobl ifanc yn eu harddegau allu cymdeithasu. Ni ddylai plant gael eu rhwystro rhag mynd i'r gwahanol fannau oherwydd eu hoedran gan y bydd pob plentyn yn wahanol i'w gilydd ac efallai yr hoffent chwarae mewn ffyrdd gwahanol ar wahanol adegau.

57. Dywedodd tyst o Grŵp Gweithredu Ieuenctid y Rhyl wrth y Pwyllgor bod rhai cysgodfeydd i bobl ifanc eu defnyddio mewn rhai

ardaloedd, ond eu bod yn oer gan fod tyllau yn yr ochrau a bod y gwynt yn chwythu drwyddynt. Hefyd, nid oedd goleuadau yn yr ardal felly ni allai'r bobl ifanc fynd yno wedi iddi dywyllu.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod awdurdodau lleol yn gadael y goleuadau heb eu diffodd ger mannau chwarae, a'r strydoedd y bydd pobl yn eu defnyddio i gerdded yno. Mae'r Pwyllgor yn argymell, hefyd, y caiff goleuadau eu cynnwys mewn cynlluniau ar gyfer unrhyw fannau chwarae newydd.**

## Sut mae ofn yn effeithio ar chwarae

### Sbwriel a fandaliaeth

58. Dywedodd llawer o blant a phobl ifanc wrth y Pwyllgor fod sbwriel a fandaliaeth yn y mannau lle maent yn chwarae yn gwneud iddynt deimlo'n llai diogel. Dywedodd rhai o'r tystion wrth y Pwyllgor fod baw cwn hefyd yn broblem mewn mannau lle mae plant am gael chwarae.

59. Mae fandaliaeth a gollwng sbwriel yn anghyfreithlon a dylai perchnogion cwn lanhau baw eu cwn ond mae sbwriel, fandaliaeth a baw cwn yn parhau i achosi trafferth.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod awdurdodau lleol yn siarad â phlant a phobl ifanc i geisio canfod lle mae'r problemau gwaethaf o ran annibendod a diffyg atgyweirio. Yna, dylai awdurdodau lleol lanhau ac atgyweirio'r mannau hynny.**

### Iechyd a diogelwch

60. Dywedodd tystion wrth y Pwyllgor nad oedd rhai plant a phobl ifanc yn cael chwarae mewn ffordd anturus am fod oedolion yn pryderu y gallai'r plant gael eu hanafu ac yna byddai'r oedolion mewn trafferth am beidio â gofalu amdanynt yn iawn.

61. Dywedodd rhai tystion wrth y Pwyllgor hefyd fod chwarae anturus yn bwysig gan ei fod yn helpu plant a phobl ifanc i ddysgu sut i wynebu risgiau a dysgu pethau newydd.

62. Ond dywedodd un tyst wrth y Pwyllgor fod angen i feysydd chwarae fod yn ddiogel fel y gall rhieni fod yn dawel eu meddwl na fyddai eu plant yn cael eu hanafu wrth chwarae ynddynt.

63. Roedd y Pwyllgor yn teimlo bod chwarae anturus yn bwysig iawn a'i fod yn helpu plant a phobl ifanc i ddatblygu. Roedd y Pwyllgor yn teimlo hefyd y dylai plant a phobl ifanc gael eu diogelu rhag risgiau sy'n bosibl eu hosgoi.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda darparwyr chwarae, plant a phobl ifanc a phobl eraill sydd â diddordeb i ysgrifennu canllawiau iechyd a diogelwch a fydd yn annog chwarae anturus.**

**Perygl dieithriaid**

64. Dywedodd llawer o blant a phobl ifanc wrth y Pwyllgor fod arnynt ofn dieithriaid. Gofynnodd holiadur y Pwyllgor "os ydych wedi teimlo'n anniogel wrth chwarae / cymdeithasu, beth achosodd hyn?" Yr ymateb mwyaf cyffredin i'r cwestiwn oedd perygl dieithriaid.

65. Ond dywedodd yr Heddlu wrth y Pwyllgor mai dim ond un person ifanc oedd wedi cael ei herwgipio yn ardal De Cymru yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, ac nad oedd un wedi cael ei herwgipio yn y Gogledd. Barn yr Heddlu oedd bod pobl yn fwy ofnus o ddieithriaid nag yr oedd angen iddynt fod.

66. Dywedodd Barnardo's Cymru wrth y Pwyllgor na ddylai plant deimlo ofn pob dieithryn, ond y dylid eu haddysgu sut i gadw'n ddiogel lle bynnag y maent.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag eraill i feddwl a fyddai'n ddefnyddiol cynnal ymgyrch i helpu plant a'u rhieni ddysgu sut i gadw'n ddiogel heb fod ag ofn mynd allan.**

67. Dywedodd Sefydliad Beth Johnson ar gyfer Astudiaethau Rhwng Cenedlaethau fod pobl yn y gymuned yn ofnus o bobl eraill yn y gymuned am nad ydynt yn adnabod ei gilydd. Awgrymwyd pe bai pobl ifanc a phobl hŷn yn cydweithio ar brosiectau, a elwir yn 'brosiectau rhwng cenedlaethau,' y byddent yn dod i adnabod ei gilydd a dod yn llai ofnus o'i gilydd.

68. Efallai mai rhai o'r prosiectau rhwng cenedlaethau y gallai pobl hŷn a phobl ifanc wneud fyddai cael y bobl ifanc i holi'r bobl hŷn er mwyn eu helpu i ddeall hanes. Mae prosiectau rhwng cenedlaethau yn dda, ond eu bod yn cael eu cynnal, yn aml, gan bobl hŷn, a nid ydynt, bob amser, yn ystyried y math o beth yr hoffai pobl ifanc ei wneud.

69. Dywedodd Sefydliad Beth Johnson wrth y Pwyllgor hefyd fod partïon stryd wedi cael eu cynnal er mwyn helpu pobl i ddod i adnabod eu gilydd yn well. Roedd y Pwyllgor yn teimlo y byddai hyn yn ffordd dda o ddod i adnabod pobl eraill yn y gymuned, yn arbennig gan y byddai cau'r stryd ar gyfer parti yn golygu y gallai plant chwarae ar y stryd heb i geir fod yn eu peryglu.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau y dylai gwaith rhwng cenedlaethau ystyried barn pobl ifanc yn ogystal ag oedolion.**

**Stereoteip negyddol o blant a phobl ifanc**

70. Mae pobl yn aml yn beirniadau plant a phobl ifanc cyn dod i'w hadnabod, yn seiliedig ar y pethau drwg a glywsant am rai plant a phobl ifanc. Gellir galw hyn yn stereoteip negyddol.

71. Clywodd y Pwyllgor am un achos lle roedd un person ifanc ar fin mynd i helpu hen fenyw oedd wedi gollwng ei bag siopa. Pan aeth ati i'w helpu, roedd hi'n disgwyl i'r bachgen ymddwyn mewn ffordd benodol ac roedd arni ofn y byddai'n ymosod arni felly sgrechiodd. Teimlodd y bachgen gywilydd, a cherddodd i ffwrdd heb ei helpu.

72. Er bod y rhan fwyaf o blant am gael chwarae y tu allan, dywedodd Comisiynydd Plant Cymru wrth y Pwyllgor fod 80 y cant ohonynt wedi cael eu ceryddu, bod rhywun wedi gweiddi ar 50 y cant ohonynt a bod rhywun arall wedi bygwth trais yn erbyn 25 y cant ohonynt am chwarae y tu allan.

73. Dywedodd un tyst fod plant hefyd yn teimlo ofn pobl hŷn.

74. Mae rhai rhieni yn poeni am adael eu plant allan i chwarae am eu bod yn pryderu y gall rhywbeth drwg ddigwydd. Mae rhai eraill yn gwrthod gadael i'w plant chwarae allan am fod ofn arnynt i bobl eraill feddwl eu bod yn rhieni gwael am beidio dod o hyd i rywbeth gwell i'w plant ei wneud.

75. Mae'r Pwyllgor yn teimlo bod chwarae yn rhywbeth pwysig iawn i'w wneud ac y dylai plant gael croeso i chwarae tu allan yn eu cymunedau. Mae'n bwysig bod pawb yn gwerthfawrogi plant, felly am fod chwarae yn bwysig iddynt, dylai hynny fod yn bwysig i ni hefyd.

76. Roedd Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn pryderu am y ffordd negyddol y mae oedolion yn y DU yn meddwl am blant a phobl ifanc.

77. Soniodd rhai tystion wrth y Pwyllgor am y ffordd y trafodir plant a phobl ifanc ar y cyfryngau. Er bod pobl ifanc wedi bod yn cymdeithasu gyda'u ffrindiau ar gorneli strydoedd ers blynyddoedd, dywedodd Fairbridge Cymru wrth y Pwyllgor fod y cyfyngau wedi bod yn ymgyrchu i'w rhwystro drwy gyheoddi erthyglau gyda phenawdau fel 'Ban the Hoody'.

78. Mae'r Pwyllgor yn gobeithio y bydd gweithio rhwng cenedlaethau, a phethau eraill a gaiff eu hawgrymu yn yr adroddiad hwn, yn helpu oedolion i beidio â bod yn negyddol tuag at blant a phobl ifanc. Ond mae'n anodd iawn newid y ffordd mae llawer o bobl yn meddwl felly mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru ac awdurdoda lleol yn gwneud

popeth gallant i drin plant a phobl ifanc fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnwys gwaith rhwng cenedlaethau yn y cwricwlwm ysgol er mwyn sicrhau bod pobl hŷn a phobl iau yn gweithio gyda'i gilydd mewn ffordd gadarnhaol.**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal pedwar digwyddiad ar gyfer y cyfryngau mewn gwahanol rannau o Gymru er mwyn helpu'r cyfryngau i ddeall plant a phobl ifanc yn well ac esbonio pam y gall hanesion negyddol amdanynt beri trafferth i'r holl gymuned. Hefyd, dylai Llwyodraeth Cymru ofyn i Lywodraeth y DU wneud hyn ledled y DU.**

### Bwlio

79. Dywedodd rhai plant a phobl ifanc wrth y Pwyllgor fod bwlio wedi eu rhwystro rhag mynd allan i chwarae. Dywedodd pobl ifanc o'r Ddraig Ffynci fod achosion o fwlio yn llai tebygol o ddigwydd os oes oedolion o gwmpas. Dywedodd bron i hanner y plant a'r bobl ifanc a gwblhaodd holiadur y Pwyllgor y buasent yn teimlo'n fwy diogel gydag oedolion i gadw llygad arnynt.

80. Roedd y Pwyllgor wedi synnu bod cymaint o blant a phobl ifanc am gael oedolion o gwmpas pan fyddant yn chwarae ac roedd yn pryderu nad yw plant a phobl ifanc yn teimlo'n ddigoel heb oedolion.

81. Dywedodd y sefydliad 'Plant yng Nghymru' wrth y Pwyllgor fod bwlio bob amser yn broblem i blant anabl a phobl ifanc.

82. Dywedodd rhai tystion wrth y Pwyllgor fod rhai gweithwyr chwarae yn ansicr o ran pryd i ymyrryd mewn achos o fwlio. Roedd y Pwyllgor yn pryderu am hyn ac mae'n gofyn i Lywodraeth Cymru sicrhau y caiff gweithwyr chwarae eu hyfforddi mewn ffordd sy'n sicrhau eu bod yn deall fod yn rhaid atal bwlio.

83. Dywedodd Grŵp Gweithredu Ieuenctid y Rhyl fod achosion o fwlio y tu allan i'r ysgol yn broblem i lawer o blant. Dywedodd Heddlu De Cymru wrth y Pwyllgor fod yr heddlu yn ceisio cynorthwyo pobl sy'n cael eu bwlio y tu allan i'r ysgol.

84. Mae'r Pwyllgor yn deall nad yw plant a phobl ifanc i gyd am gael eu goruchwylio gan oedolyn, ond mae'n credu y dylai chwarae dan

oruchwyliaeth fod ar gael ym mhob ardal i'r rhai y byddai'n well ganddynt y dewis hwnnw.

85. Mae gweithwyr chwarae yn ddelfrydol ar gyfer goruchwylio chwarae, ond byddai'n bosibl i bobl eraill sy'n gweithio gyda phlant wneud hynny hefyd. Er enghraifft, pe bai gofalwyr parciau yn cael eu hyfforddi i ddod yn gyfarwydd â bwlio, efallai y byddai plant yn teimlo'n fwy diogel yn y parc a byddai rhieni yn llai pryderus.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn edrych ar yr hyn y gellir ei wneud i sicrhau bod llai o fwlio yn digwydd y tu allan i'r ysgol. Dylai Llywodraeth Cymru feddwl yn benodol am yr hyn y gall ei wneud i helpu plant anabl a phobl ifanc a gaiff eu bwlio. Mae'r Pwyllgor hefyd yn gofyn i Lywodraeth Cymru ddweud pryd y caiff ei chanllaw gwrth-fwlio ei gyhoeddi, gan fod disgwyl iddo gael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2009.**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi arweiniad i awdurdodau lleol yn gofyn iddynt ddarparu cyfleoedd chwarae dan oruchwyliaeth i blant a phobl ifanc mewn gwahanol ffyrdd. Hefyd, dylai Llywodreth Cymru feddwl am y ffordd orau o hyfforddi gweithwyr chwarae fel nad ydynt yn ansicr wrth atal bwlio.**

## Trafnidiaeth

86. Dywedodd llawer o dystion wrth y Pwyllgor nad oedd digon o drafnidiaeth gyhoeddus a bod hyn yn rhwystro plant a phobl ifanc rhag cyrraedd mannau diogel i chwarae a chymdeithasu. Roedd costau defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus hefyd yn broblem i lawer o blant a phobl ifanc.

87. Roedd y problemau hyn yn waeth i bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig ac i bobl ifanc dros 15 oed sy'n gorfod talu'n llawn am deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus.

88. Talodd Llywodraeth Cymru i bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Gogledd-ddwyrain Cymru dalu llai am gyfnod ac ei ei fod wedi cynorthwyo pobl ifanc yn yr ardaloedd hynny, roedd yn rhy ddrud i wneud hyn ledled Cymru. Mae'r Pwyllgor yn meddwl y dylai gostwng pris teithio i bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed yng Nghymru fod yn bwysig i Lywodraeth Cymru.

89. Byddai gwell trafnidiaeth gyhoeddus o fudd i lawer o bobl yn y gymuned – yn arbennig pobl hŷn a phobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig. Dylai Llywodraeth Cymru feddwl mwy am sut y mae'n bosibl gwella trafnidiaeth gyheoddus.

90. Dywedodd rhai tystion wrth y Pwyllgor nad yw rhai plant yn gallu cymryd rhan mewn digwyddiadau ar ôl yr ysgol am fod yn rhaid iddynt ddal y bws ysgol yn syth ar ôl i'w gwersi orffen.

91. Roedd y Pwyllgor yn teimlo y dylai ysgolion geisio aildrefnu bysiau neu newid amseroedd y diwrnod ysgol fel y gall disgyblion gymryd rhan yn y gweithgareddau roeddynt yn dewis eu gwneud.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod lleihau costau teithio i bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed yng Nghymru yn flaenoriaeth er mwyn helpu pobl ifanc i gyrraedd digwyddiadau hamdden yn ogystal â chyfleoedd addysg a hyfforddiant.**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai anghenion plant a phobl ifanc gael eu hystyried, yn ogystal ag anghenion pobl eraill, wrth feddwl am y system drafnidiaeth gyhoeddus. Os yw'r ystyriaethau hynny yn dangos bod mwy o broblemau gyda'r system, dylai Llywodraeth Cymru wneud cymaint ag y gall i ddatrys y problemau hynny.**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi arweiniad i awdurdodau lleol sy'n dweud na ddylai plant orfod methu gweithgareddau ar ôl ysgol am eu bod yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.**

## Anghenion plant a phobl ifanc sydd ag anghenion penodol

### Plant sy'n byw mewn ardaloedd gwledig

92. Mae tystiolaeth yn dangos nad yw plant a phobl ifanc sy'n bwy mewn ardaloedd gwledig yn gweld eu ffrindiau mor aml â'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd trefol. Efallai mai'r rheswm am hyn yw nad oes cyfleusterau hamdden yn ymyl ac nad oes digon o drafnidiaeth gyhoeddus i fynd i fannau diogel i gwrdd â ffrindiau.

93. Yn aml iawn, nid oes palmentydd mewn ardaloedd gwledig felly mae hefyd yn anodd cerdded i gwrdd â ffrindiau.

94. Dywedodd y Dirprwy Weinidog dros Blant wrth y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru yn edrych ar pa mor ddefnyddiol yw darpariaeth chwarae symudol mewn ardaloedd gwledig. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn edrych ar sut y gall helpu pobl mewn ardaloedd gwledig i ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus eraill. Mae'r Pwyllgor yn falch o glywed bod Llywodraeth Cymru yn gwneud hyn ac mae'n gobeithio y bydd plant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn unrhyw benderfyniadau.

95. Er bod rhai gweithgareddau gwych i dwristiaid eu mwynhau yng nghefn gwlad Cymru, digwyddiadau fel syrffio a dringo creigiau, dywedodd rhai tystion wrth y Pwyllgor hefyd y gallent fod yn rhy ddrud i blant a phobl ifanc. Awgrymodd Barnardo's y gallai pobl leol gael cynnig pris gostyngol i gymryd rhan mewn rhai gweithgareddau neu y byddai'n bosibl annog busnesau lleol i weithio gyda grwpiau o blant lleol er mwyn iddynt gael cyfle i roi cynnig ar y chwaraeon.

### Plant ag anableddau

96. Dywedodd rhai tystion wrth y Pwyllgor ei bod yn bwysig fod plant ag anableddau yn gallu manteisio ar gyfleoedd chwarae prif ffrwd. Mae manteision i'r holl blant pan fydd hyn yn digwydd.

97. Dywedodd tystion eraill wrth y Pwyllgor y dylai plant anabl allu manteisio ar gyfleoedd chwarae arbenigol hefyd os mai dyna eu bwriad. Byddai rhai plant yn cael budd o gymysgedd o gyfleoedd chwarae arbenigol a phrif ffrwd.

98. Roedd rhai rhieni yn pryderu na fyddai eu plentyn anabl yn cael digon o gymorth mewn sefyllfa chwarae prif ffrwd. Dywedodd Comisiynydd Plant Cymru y gallai rhai rhieni pryderus rwystro plentyn

anabl rhag ymuno yn y chwarae o bryd i'w gilydd er mai dyna oedd dymuniad y plentyn.

99. Roedd y Pwyllgor yn teimlo ei bod yn bwysig iawn fod y cymorth iawn ar gael i bob plentyn anabl sydd am ddefnyddio cyfleoedd chwarae prif ffrwd. Teimlai'r Pwyllgor hefyd fod angen cynnig mwy o gymorth i rieni sydd angen mwy o hyder i adael i'w plant roi cynnig ar bethau newydd drwy chwarae.

100. Weithiau, ni allai plant anabl ddefnyddio lleoliadau chwarae prif ffrwd am nad oedd yn bosibl iddynt fynd i mewn i'r adeiladau. Mae'r gyfraith yn dweud bod yn rhaid i bob adeilad cyhoeddus fod yn hygyrch, ond nid yw hyn yn wir am bob adeilad cyhoeddus ar hyn o bryd.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodreth Cymru yn sicrhau bod lleoliadau chwarae prif ffrwd yn hygyrch i bob plentyn a pherson ifanc, a bod cyfleoedd chwarae arbenigol ar gael i blant anabl sydd am eu defnyddio. Wrth ystyried anghenion gofalwyr plant a phobl ifanc anabl, dylid ystyried cymorth hefyd i'r gofalwr deimlo'n hyderus wrth adael i'r plenty neu'r person ifanc roi cynnig ar bethau newydd drwy chwarae.**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i sicrhau bod pob adeilad cyhoeddus newydd yng Nghymru yn hollol hygyrch. Dylid gwella mynediad i adeiladau hŷn lle a phan mae hynny'n bosibl.**

### Plant a phobl ifanc sy'n byw ar aelwydydd difreintiedig

101. I blant a phobl ifanc sy'n byw ar aelwydydd difreintiedig, mae costau gallu defnyddio cyfleoedd chwarae yn bwysig iawn. Dywedodd rhai tystion wrth y Pwyllgor fod hyd yn oed tâl o 50c y noson yn ormod o arian i deulu difreintiedig sydd â llawer o blant.

102. Dywedodd Barnardo's Cymru wrth y Pwyllgor fod y prisiau y mae awdurdodau lleol yn eu codi am y gweithgareddau a gaiff eu cynnal ganddynt hwy yn amrywio ar hyd a lled Cymru. Dyweodd un fam wrth y Pwyllgor na all fforddio mynd â'r holl deulu i'r ganolfan sglefrio gaeaf a gaiff ei rhedeg gan yr awdurdod lleol am fod yn rhaid talu pris mynediad oedolyn ar gyfer ei mab 14 oed. Cynigir gostyngiad myfyrwyr i bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed, ond nid oedd gostyngiad felly ar gyfer pobl ifanc 14 a 15 oed.

103. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wrth y Pwyllgor fod awdurdodau lleol, weithiau, yn codi tâl mynediad er mwyn sicrhau nad yw pobl yn cymryd mantais ar y gweithgaredd hwnnw. Roedd y Pwyllgor yn teimlo nad oedd hyn yn deg i deuluoedd sydd ar incwm isel.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod polisïau prisio llywodraeth leol yn cael eu newid fel y gall cyfleoedd chwarae a hamdden gael eu darparu am ddim pan fydd hynny'n bosibl. Lle mae angen talu, dylai tocynnau teulu fod ar gael ar gyfer y nifer gwahanol o oedolion a phlant yn y teulu hwnnw.**

### Plant Sipsiwn-Teithwyr

104. Aeth Angela Burns, un o aelodau'r Pwyllgor i ymweld â rhai plant a phobl ifanc Sipsiwn-Teithwyr yn Sir Benfro. Dywedodd y plant a'r bobl ifanc ei bod yn anodd iddynt ddod o hyd i gyfleoedd chwarae am eu bod yn aml yn rhy bell i ffwrdd.

105. Dywedodd y merched wrth y Pwyllgor nad oedd yn bosibl iddynt fynd allan i chwarae yn aml am fod eu rhieni yn pryderu pan fyddant yn mynd allan ar eu pen eu hunain neu gyda ffrindiau.

106. Dywedodd adroddiad a ysgrifennwyd gan Gyrff Anllwyodraethol Cymru yn 2007 fod plant Sipsiwn-Teithwyr yn aml yn wynebu hiliaeth eithriadol, felly mae'n llawer mwy anodd iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden.

107. Mae'n rhaid i ni gael gwell dealltwriaeth o anghenion plant a phobl ifanc Sipsiwn-Teithwyr, ond rydym wedi clywed llawer o adroddiadau hefyd bod rhai o'r safleoedd y maent yn byw arnynt yn erchyll.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried anghenion plant a phobl ifanc Sipsiwn-Teithwyr. Dylai plant a phobl ifanc Sipsiwn-Teithwyr, a'u rhieni, gymryd rhan yn y penderfyniadau am wneud cynllun datblygu chwarae. Dylai canllawiau cynllunio ar gyfer safleoedd Sipsiwn-Teithwyr sicrhau bod cyfleoedd chwarae yn cael eu cynnwys ar bob safle.**

## Beth y gall ysgolion ei wneud i helpu

108. Dywedodd rhai tystion wrth y Pwyllgor y gallai ysgolion ddarparu mannau diogel i chwarae a chymdeithasu ar benwythnosau a thu allan i oriau ysgol arferol.

109. Dywedodd rhai plant wrth y Pwyllgor yr hoffent ddefnyddio cyfleusterau celf a chwaraeon eu hysgolion y tu allan i oriau ysgol arferol. Dyweodd eraill na fyddent yn mynd i'r ysgol yn ystod eu hamser rhydd.

110. Dywedodd Sgowtiaid Cymru y byddai gallu defnyddio adeilad neu dir yr ysgol yn ddefnyddiol iawn, ond nad oedd rhai ysgolion yn fodlon iddynt eu defnyddio. Roedd ysgolion eraill yn fodlon, ond bod costau gwresogi'r holl ysgol yn ormod, dim ond er mwyn i'r Sgowtiaid allu defnyddio rhan fach ohoni.

111. Dywedodd Ysgol Gynradd Cymunedol Rhosymedre yn y Gogledd wrth y Pwyllgor ei bod wedi adeiladu man chwarae arbennig a oedd yn gryf iawn. Roedd gatiau'r ysgol yn cael eu gadael ar agor drwy'r amser fel y gallai plant lleol ddefnyddio cae a man chwarae'r ysgol pryd bynnag y mynent.

112. Mae'r Pwyllgor yn deall nad yw pob plentyn a pherson ifanc am dreulio amser yn yr ysgol yn ystod eu hamser rhydd, ond gallai'r adeiladau a'r tir fod yn fannau diogel i rai chwarae a chymdeithasu. Gallai'r ffordd hon o ddefnyddio'r ysgol hefyd helpu plant a phobl ifanc y mae trafnidiaeth gyhoeddus yn drafferthus iddynt.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru adolygu yr hyn y gall ysgolion a gaiff eu cynnal ei wneud i gefnogi mannau diogel i chwarae a chymdeithasu. Dylai'r adolygiad gynnwys yr holl faterion y mae angen eu hystyried os oes disgwyl i ysgolion rannu cyfleusterau lle bynnag y mae hynny'n bosibl.**

## Tystion

Bu'r tystion a ganlyn yn siarad â'r Pwyllgor ar y dyddiadau isod. Gelwir y math yma o dystiolaeth yn dystiolaeth lafar. Gellir gweld cofnodion ysgrifenedig o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar yn [http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-other-committees/bus-committees-third-cyp-home.htm](http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-other-committees/bus-committees-third-cyp-home.htm)

*19 Ionawr*

| | |
|---|---|
| Huw Lewis, y Dirprwy Weinidog dros Blant | Llywodraeth Cymru |
| Chris Tweedale, Cyfarwyddwr – Y Grŵp Plant, Pobl Ifanc ac Effeithiolrwydd Ysgolion (CYPSE) | |
| Martin Swain, Pennaeth y Gangen Rhaglenni Plant a Theuluoedd | |
| Tanis Cunnick, Pennaeth y Gangen Strategaeth Gwaith Ieuenctid | |
| Mike Greenaway, Cyfarwyddwr<br>Marianne Mannello, Cyfarwyddwr Cynorthwyol | Chwarae Cymru |
| Keith Towler, Comisiynydd Plant Cymru | Comisiynydd Plant Cymru |

*2 Chwefror*

| | |
|---|---|
| Vikki Butler, Uwch Swyddog Ymchwil a Pholisi | Barnardo's Cymru |
| Tim Ruscoe, Swyddog Datblygu, Cyswllt â'r Cynulliad a Chyfranogiad | |

*23 Chwefror*

| | |
|---|---|
| Melanie Blake, Rheolwr Datblygu Craidd | Y Ddraig Ffynci |
| Jessica Simmonds,Y Ddraig Ffynci Conwy | |
| Victoria Madden, Y Ddraig Ffynci Merthyr Tudful | |
| Chris Llewelyn, Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes, Hamdden a Gwybodaeth | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Naomi Alleyne, Cyfarwyddwr Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol | |
| Huw Jones, Prif Weithredwr | Cyngor Chwaraeon Cymru |
| Anne Hamilton, Pennaeth Datblygu Pobl a Rhaglenni | |

*22 Mawrth*

| | |
|---|---|
| Shane Owen, Rheolwr Prosiect | Grŵp Gweithredol Ieuenctid y Rhyl |
| Val Owen, Gwirfoddolwr y Prosiect | Darparwyr Clwb Ieuenctid Iwth Pen |
| Mandy Davies, Gwirfoddolwr y Prosiect | |
| Jamie Digwood, Cyfarwyddwr Pêl-droed | Clwb Pêl-droed y Rhyl |
| Lee Jones, Rheolwr Datblygu Cymunedol Pel-droed yn y Gymuned, y Rhyl | |

*27 Ebrill*

| | |
|---|---|
| Catriona Williams, Prif Swyddog Gweithredol | Plant yng Nghymru |
| Lynne Hill, Cyfarwyddwr Polisi | |
| Sean O'Neill, Cyfarwyddwr Polisi | |

*11 Mai*

| | |
|---|---|
| Antony Metcalfe, Rheolwr Canolfan | Fairbridge Cymru |
| Jonathan Bevan, Swyddog Prosiect Adfywio | Cartrefi Cymoedd Merthyr |
| Alexandra Allen, Cyfarwyddwr Cymdogaethau Byw | Sustrans |
| Lee Waters, Cyfarwyddwr Cymru | |
| Dave Morris, Prif Gwnstabl Cynorthwyol | Heddlu De Cymru |
| Martin Peters, Cynghorydd Cymunedol, Langford, Castell-nedd | PACT |
| Eugene Dubens, Cydgysylltydd Cymunedau yn Gyntaf, Caerau | |

*25 Mai*

| | |
|---|---|
| Alan Hatton-Yeo, Prif Weithredwr, Sefydliad Beth Johnson | Canolfan Pontio'r Cenedlaethau |
| Pete Duncan, Hyfforddwr a Chyfarwyddwr CLADA | Co-train |
| Barbara Wilding, Aelod o Bwyllgor Cymru ac aelod o Bwyllgor Teuluoedd Iach | Y Gronfa Loteri Fawr |
| Rob Roffe, Rheolwr Polisi | |

*15 Mehefin*

| | |
|---|---|
| Jill Gloster, Prif Gomisiynydd Cymru ac uwch wirfoddolwr o fewn Cymru | Y Sgowtiaid |
| Simon Brownsill, Comisiynydd Maes De a Gorllewin Cymru | |
| Chris Llewelyn, Cyfarwyddwr | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |

| | |
|---|---|
| Dysgu Gydol Oes, Hamdden a Gwybodaeth | |
| Naomi Alleyne, Cyfarwyddwr Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol | |
| Huw Lewis, y Gweinidog dros Blant | Llywodraeth Cymru |
| Elin Gwynedd, Pennaeth yr Uned Eiriolaeth | |
| Suzanne Chisholm, Pennaeth y Gangen Hawliau | |

## Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-other-committees/bus-committees-third-cyp-home/bus-committees-third-cyp-inquiry/cyp3_-inq-safe_places.htm

| *Enw* | *Sefydliad* | *Cyfeirnod* |
|---|---|---|
| Y Cyng Mike Whitby BNP | | SP 01 |
| Huw Lewis, y Dirprwy Weinidog dros Blant | Llywodraeth Cymru | SP 02<br>SP 02a<br>AWE02 |
| Mike Greenaway, Cyfarwyddwr | Chwarae Cymru | SP 03<br>AWE 01 |
| Keith Towler, Comisiynydd Plant Cymru | Comisiynydd Plant Cymru | SP 04<br>AWE 03 |
| Tim Ruscoe, Swyddog Datblygu, Cyswllt â'r Cynulliad a Chyfranogiad | Barnardo's Cymru | SP 05<br>AWE 11<br>AWE 13 |
| Dave Morris, Prif Gwnstabl Cynorthwyol Heddlu De Cymru | Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu | SP 06 |
| Heledd James, Rheolwr Datblygu Cenedlaethol Dros Dro | Continyou Cymru | SP 07<br>SP 07a |
| Michelle Jones, REO | Prosiect Seilwaith Chawrae 3 Sir | SP 08 |
| Rhian Cook, Gweithiwr Cynnwys Plant a Phobl Ifanc | Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Sir Fynwy | SP 09 |

| | | |
|---|---|---|
| Jean Gregson, Swyddog Cynnal Partneriaeth | Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Pen-y-bont ar Ogwr | SP 10 |
| Chris Southern | Recreate, Cymdeithas Gwasanaethau Chwarae Caerdydd a'r Fro | SP 11 |
| Debbie Green, Swyddog Polisi ac Ymgyrchoedd | Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar (NDCS) | SP 12<br>SP 12a |
| Vivienne Laing, Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus | Gweithredu dros Blant | SP 13 |
| Rob Roffe, Rheolwr Polisi | Y Gronfa Loteri Fawr | SP 14 |
| Naomi Alleyne, Cyfarwyddwr Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | SP 15<br>AWE 05<br>AWE 11 |
| Huw Jones, Prif Weithredwr | Cyngor Chwaraeon Cymru | SP 16 |
| Melanie Blake, Rheolwr Datblygu Craidd | Y Ddraig Ffynci | SP 17 |
| Mike Dessington, Swyddog Datblygu Chwarae Rhanbarthol | Chwarae Gogledd-ddwyrain Cymru | SP 18 |
| Becky Cole, Swyddog Datblygu Chwarae Anturus | Chwarae Iawn | SP 19 |
| Caryl Alban, Swyddog Chwarae | Partneriaeth Plant Sir Gaerfyrddin | SP 20 |
| Anthony Metcalf, Rheolwr Canolfan y Tîm | Fairbridge Cymru | SP 21 |

| | | |
|---|---|---|
| Shane Owen, Rheolwr Prosiect | Grŵp Gweithredu Ieuenctid y Rhyl | SP 22a<br>SP 22b<br>SP 22C<br>AWE 06 |
| Val Owen, Gwirfoddolwr y Prosiect<br>Mandy Davies, Gwirfoddolwr y Prosiect | Darparwyr Clwb Ieuenctid Iwth Pen | SP 23 |
| Jamie Digwood – Cyfarwyddwr Pêl-droed Clwb Pêl-droed y Rhyl | Clwb Pêl-droed y Rhyl | SP 24 |
| Sean O'Neill, Cyfarwyddwr Polisi | Plant yng Nghymru | SP 25<br>AWE 12 |
| Yr Athro J R Sibert | | SP 26 |
| Jonathan Bevan, Swyddog Prosiect Adfywio | Cartrefi Cymoedd Merthyr | SP 27 |
| Alexandra Allan, Cyfarwyddwr Cymdogaethau Byw | Sustrans | SP 28<br>AWE 07 |
| Pete Duncan, Hyfforddwr a Chyfarwyddwr CLADA | Co-train | SP 29 |
| Alan Hatton-Yeo, Prif Weithredwr Sefydliad Beth Johnson | Canolfan Pontio'r Cenedlaethau | SP 30<br>AWE 08, 08a |
| Jill Gloster Prif Gomisiynydd Cymru ac uwch wirfoddolwr o fewn Cymru | Y Sgowtiaid | SP 31 |
| Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai | Llywodraeth Cymru | CYP(3) SP 08<br>AWE 09 |

| | | |
|---|---|---|
| Nodiadau o ymweliadau aelodau'r Pwyllgor | Cynulliad Cenedlaethol Cymru | AWE 10 |
| Nodyn gan Ysgol Ardudwy Harlech | | AWE 14 |